

Hawdd ei Ddeall

Weli di fi?

Gwybodaeth i rieni a gofalwyr plant awtistig



GIG
CYMRU
NHS
WALES | Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



AwtistiaethCymru.org
AutismWales.org



Mae'r daflen yma am gynllun i bobl awtistig o'r enw **'Weli di fi?'**



Cynllun ydy 'Weli di fi?' sydd yn gallu eich helpu chi i adael i eraill wybod eich plentyn yn awtistig.

Pam rydyn ni wedi dechrau 'Weli di fi?'



Mae llawer o blant a gofalwyr wedi dweud wrthyn ni bod defnyddio gwasanaethau yn anodd i'w plant awtistig. Er enghraifft canolfannau hamdden a chlybiau ar ôl ysgol. Yn aml dydy staff ddim yn deall anghenion plant a phobl ifanc awtistig.



Fe fyddai'r rhan fwyaf o bobl awtistig a theluoedd y gwnaethon ni siarad gyda nhw yn hoffi ffordd hawdd o roi gwybod i bobl eu bod nhw'n awtistig. Felly fe wnaethon ni ddechrau **'Weli di fi?'**



Dyma gynllun am ddim sydd wedi ei gyllido gan Lywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut rydych chi'n gallu rhoi gwybod i eraill bod gan eich plentyn yn awtistig



Mae gennych chi 3 dewis, rydych chi'n gallu dewis dim un, pob un neu gymysgedd o'r 3:

1. Mae eich plentyn yn gallu gwisgo band garddwrn
2. Mae eich plentyn yn gallu cario cerdyn plastig gyda nhw, a'i ddangos i bobl
3. Mae eich plentyn yn gallu cadw delwedd i ddangos i bobl ar eu ffôn symudol

Fe fydd gan pob dewis batrwm A arno fel hyn:



Dydy'r band garddwrn ddim yn dweud bod eich plentyn yn awtistig. Fe fydd y ddelwedd ar eich ffôn a'r cerdyn yn dweud bod eich plentyn yn awtistig.



Does dim rhaid i chi gymryd rhan yn y cynllun yma. Os dydych chi ddim eisiau i eraill wybod bod eich plentyn yn awtistig, peidiwch â defnyddio unrhyw un o'r dewisiadau.

Sut fyddwch chi'n gwybod os ydy corff yn rhan o'r cynllun



Rydyn ni wedi rhoi gwybodaeth am y patrwm yma ac am awtistiaeth i fusnesau a chyrff.



Fe fydd gan fusnesau a chyrff sticer ffenestr gyda'r patrwm A i roi gwybod i chi eu bod **yn ymwybodol o awtistiaeth.**

Am ragor o



Am ragor o wybodaeth ac adnoddau ewch i'n gwefan: www.AwtistiaethCymru.org

E-bost: AwtistiaethCymru@WLGa.gov.uk



Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.